# Cydnabyddiaethau Cynhyrchu

## Canllawiau Credydau Cloi

### A Lleoliad y Credydau

01 Dylid lleoli'r credydau ar ochr chwith y sgrîn, o fewn yr ardal ddiogel 16:9.

02 Ni ddylai'r credydau groesi canol y sgrîn.

03 Dylai'r cefndir orchuddio'r sgrîn gyfan gyda deunydd symudol, graffeg neu ddu.

04 Does dim rhaid i'r credydau droelli i fyny ond ni chaniateir iddynt ymlusgo ar draws y sgrîn.

05 Gall y credydau fod mewn unrhyw ffont sydd yn ddarllenadwy ac ni ddylid defnyddio maint ffont llai na 24 llinell (MU).

06 Ni ddylid cynnwys unrhyw hyrwyddiadau i'r cwmni cynhyrchu, sain y rhaglen neu glipiau o'r rhaglen a allai amharu ar banel S4C.

07 Dylid gorffen pob troslais a deialog cyn dechrau'r credydau.

08 Caiff unrhyw sain gefndirol ei ostwng yn fyw wrth ddarlledu.

09 Ni ellir defnyddio'r credydau cloi i hyrwyddo penodau dilynol. Bydd S4C yn cydlynu hyrwyddiadau yn fewnol.

10 Dim ond rhaglenni a gomisiynwyd i'w darlledu yn ystod slot Cyw a Stwnsh all ddewis peidio â chynnig credydau cloi llawn ar gyfer y rhaglenni ond yn hytrach arddangos cydnabyddiaeth y cynhyrchiad a'r rhybudd hawlfraint yn unig.

### B Darlledu

01 Bydd S4C yn gorchuddio ochr dde'r sgrîn gyda phanel gwybodaeth ar ffurf siâp 12°, sy'n gyson gyda hunaniaeth brand y sianel. Mae'n bwysig cofio bydd S4C yn defnyddio'r ardal hon ar gyfer capsiynau, lluniau neu gynnwys fideo.

A




B



# Cydnabyddiaethau Cynhyrchu a Hawlfraint

## Canllawiau Hawlfraint Cloi (hefyd y gelwir yn Copyright End Board)

### Nodyn Hawlfraint

01 Hyd y gydnabyddiaeth gynhyrchu a hawlfraint derfynol yw 3 eiliad. Rhaid i unrhyw sain ddiflannu'n llwyr erbyn diwedd y 3 eiliad.

02 Dylid gosod logo'r cwmni o fewn ardal y blwch gwyn.


03 Ni ddylid defnyddio logo wedi ei animeiddio nac un sy'n cynnwys 'sting' clywedol.

04 Bydd angen cadarnhau eich Cydnabyddiaeth Cynhyrchu a blwyddyn hawlfraint yn unol ag Amodau Masnach S4C neu fel y nodir yn y cytundeb comisiynu (gall eich cyswllt Materion Busnes gadarnhau'r manylion yma).


05 Rhaid i **BOB** hawlfraint cloi gael ei baratoi gan S4C - gan gynnwys fersiynau ar gyfer cwmnïoedd newydd, newidiadau i fersiynau blaenorol, diweddariadau i'r manylion hawlfraint a'r dyddiad, a logo cynhyrchiad ardystiedig Albert lle'n berthnasol.

Cysylltwch â **GraphicsVideo@s4c.cymru** gyda'ch cais gan gynnwys fersiwn ansawdd uchel o logo'r cwmni/cwmnïoedd, yn ogystal ag unrhyw logos eraill sydd angen eu cynnwys ac wedi cytuno'n gytundebol (yn cynnwys elfennau fel achrediad cynaladwyedd/cyd-gynhyrchwyr/cyd-arianwyr ayyb).

### Cydnabyddiaeth Cwmni Unigol




### Cydnabyddiaeth Gynhyrchu Ddwbl




### Cydnabyddiaeth Gynhyrchu Driphlyg

